

NEWYDDLLEN

Swyddfeydd Newydd y Cyngor - Coed Pella



RHIFYN 3 – AWST 2017

Bu cynnydd sylweddol ar y safle ers ein rhifyn diwethaf ym mis Mai. Mae'r ffrâm dur wedi dechrau siapio ac mae'n garreg filltir sylweddol ar Coed Pella.

WEDI'I GYNHYRCHU YNG NGHONWY, AR GYFER CONWY

Roedd y contractwyr arweiniol Bowmer & Kirkland wedi comisiynu Evadx o Fae Cinnel i ddylunio, cynhyrchu ac adeiladu'r ffrâm dur ar gyfer swyddfeydd newydd Coed Pella. Bydd gwaith adeiladu'r ffrâm dur yn cynnwys hyd at 1,000 tonnelli o ddr yn cael ei gynhyrchu yn eu cyfleuster ym Mae Cinnel, tua 11 milltir o safle Coed Pella. Yn ystod y broses cynhyrchu, mynychodd Swyddogion, Arweinydd y Cyngor a chynrychiolwyr o Muse Developments a B&K gyfleuster Evadx ym Mae Cinnel ar ddechrau Gorffennaf i weld y dur yn cael ei dorri'n fanwl. "Fel corff cyhoeddus sy'n ymwneud ag adeiladu adeilad sylweddol er budd y cyhoedd, rydym yn falch bod cwmni cynhyrchu lleol yn cymryd rhan allweddol yn y broses adeiladu" meddai'r Cynghorydd Gareth Jones, Arweinydd y Cyngor.



Cyng Gareth Jones, Arweinydd CBSC, Iwan Davies, Prif Weithredwr CBSC a Darren Millar, Aelod Cynulliad.

Cyrhaeddodd y dur cyntaf gan Evadx ar safle Coed Pella ar 17 Gorffennaf gyda nifer o bobl leol yn gwyllo'n awyddus. Mae adeiladu'r ffrâm dur yn un o'r prosiectau mwyaf i Evadx gyfrannu ato, ac mae'r ffaith bod hyn yn eu Sir eu hunain yn foment balch iddyn nhw ac i'r Cyngor.



Simon Adams, Evadx a'r Cynghorydd Gareth Jones, CBSC.

"Roeddem yn falch iawn i ni gael ein dewis gan B&K i gymryd rhan bwysig ar gyfer yr adeilad yng Nghoed Pella; rydym wedi bod yn ymwybodol o'r prosiect cyffrous hwn ers amser ar ôl mynychu'r digwyddiad Cwrdd y Prynwr ym Mae Colwyn yn 2016. Rydym yn gwmni wedi ein lleoli yn sir Conwy, yn cyflogi pobl leol ac mae adeiladu swyddfa i'r Awdurdod Lleol ar ein carreg drws yn fuddsoddiad gwych yn yr economi leol ac yn arbennig y sector gweithgynhyrchu yma yn sir Conwy" meddai Simon Adams, Rheolwr Gyfarwyddwr, Evadx.

Mae lluniau o'r safle yn cael ei glirio ar ddiwedd 2016/dechrau 2017 nawr ar lein yn

<http://www.conwy.gov.uk/en/Business/Regeneration/Colwyn-Bay-Regeneration/New-Council-Offices-in-Colwyn-Bay/New-Council-Offices-Coed-Pella-Colwyn-Bay---Time-Lapse-Video.aspx>

YN ÔL I'R DYFODOL

Byddai rhai sydd wedi mynd heibio safle datblygu Coed Pella ers mis Mai diwethaf wedi sylwi ar y delweddau diddorol a lliwgar ar y palis. Mae'r palis thema 'Nôl i'r Dyfodol' yn canolbwyntio ar y dreftadaeth bensaernïol gyfoethog sydd ar hyd Ffordd Conwy. Roedd pobl ifanc yn gweithio gyda Mai Thomas, artist lleol yng Ngogledd Cymru, i ddatblygu dyluniadau wedi'u dylanwadu gan addurniadau a manylion sydd i'w gweld y tu mewn a'r tu allan i adeiladau lleol. Mae yna hefyd dioramâu ar raddfa fach yn edrych i'r dyfodol y gellir eu gweld drwy gyfres o dyllau sbïo. Roedd yr ysgolion/grwpiau oedd yn cymryd rhan yn y prosiect yn cynnwys:

- **Ysgol Eirias**
- **Ysgol Pen-y-Bryn**
- **Ysgol Sant Joseff**
- **Ysgol Nant y Groes**
- **Grŵp Ieuenctid Bae Colwyn**

Yna cafodd y gwaith celf hwn ei gynnwys mewn delweddau o brosiectau a gyflwynwyd gan Gyngor Conwy ym Mae Colwyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf fel rhan o Raglen Adfywio Bywyd y Bae.



Disgyblion Ysgol Sant Joseff, gyda'r Pennaeth Mr Wilkinson a Mai Thomas.

Roedd Bowmer & Kirkland wedi comisiynu Powlsons, argraffwyr o Fae Colwyn, i roi'r delweddau ar balis arbenigol ar y safle; roedd View Creative o Landrillo yn Rhos wedi helpu gyda'r gwaith dylunio. "Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â chymunedau sy'n lleol i'n prosiectau adeiladu. Rydym ni'n falch iawn o'r gwaith celf hwn gan ddisgyblion ysgol lleol a chreu palis sy'n adrodd hanes adeiladu'r gorffennol ar gyfer y dyfodol." meddai Malcolm Robertson o Bowmer & Kirkland.

CYNNYDD AR Y SAFLE

Mae gwaith yn parhau y tu ôl i'r palis trawiadol. Gwnaed llawer o waith ym mis Mehefin a Gorffennaf ar y pyst sylfaen, gwaith draenio, y slab concriid a'r waliau concriid cyfnerth yng nghefn y safle. Fel y soniwyd ynghynt, dechreuwyd adeiladu'r ffrâm dur ar y safle, a fydd yn gweld y safle'n trawsnewid unwaith eto wrth i ddatblygiad Coed Pella siapio. Mae Bowmer & Kirkland yn parhau i weithio gyda thrigolion lleol, ateb ymholiadau, gwranddo ar unrhyw bryderon am amhariad yn ystod y cyfnod adeiladu a chyfathrebu yn ystod cyfnodau allweddol o'r gwaith adeiladu.

Trafodwyd a chytunwyd ar y deunydd allanol ar gyfer y waliau, toeau, ffenestri a gwaith brics gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol, fydd yn weladwy erbyn diwedd eleni a dechrau 2018.

Mae croeso i gwmnïau lleol sy'n dymuno cyfrannu at ddatblygiad Coed Pella fynychu digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr ar 5 Hydref 2017 yn swyddfeydd safle B&K Coed Pella. Bydd manylion pellach y digwyddiad hwn yn cael eu cadarnhau yn yr wythnosau nesaf ac i gael rhagor o wybodaeth, gweler y cyfeiriad e-bost isod: OAS@conwy.gov.uk neu s.martin@bandk.co.uk

ACCESS ALL EIRIAS

Byddai'r 25,000 o gefnogwyr cerddoriaeth yn y cyngerddau Bryan Adams a Little Mix ym Mharc Eirias, Bae Colwyn y mis diwethaf wedi sylwi bod gwaith bron â chael ei gwblhau ar y maes parcio newydd wrth ymyl y stadiwm. Ers hynny, mae'r gwaith wedi'i gwblhau, ac mae wedi ychwanegu cyfleuster newydd gwych yn un o leoliadau prif ddigwyddiadau Gogledd Cymru. Cafodd y maes parcio ei adeiladu ar gyfer Cyngor Conwy o dan y Strategaeth Gofod Swyddfa gan is-gontractwr B&K, Jennings ym Mae Colwyn.

Bydd y Ganolfan Ddinesig gyfagos yn cael ei throsglwyddo i Muse yn 2019 o dan y cytundeb masnachol gyda'r Cyngor fel rhan o ddarparu'r swyddfeydd newydd yng Nghoed Pella. Mae'r Ganolfan Ddinesig yn darparu maes parcio sydd wir ei angen ar gyfer Parc Eirias ar gyfer digwyddiadau mawr, ac i sicrhau nad yw'r maes parcio'n cael ei effeithio, roedd y Cyngor wedi gweld yr angen i ddarparu maes parcio yn ei le. Dylai'r maes parcio newydd ychwanegu

at y cyfleusterau a photensial ym Mharc Eirias, sy'n mynd o nerth i nerth.

“Mae adeiladu'r maes parcio newydd hwn yn cwblhau gwelliannau eraill yn ac o amgylch Parc Eirias. Rydym yn gweld potensial gwych i'r stadiwm a'r cyfleusterau o ganlyniad i esblygiad parhaus y tîm rygbi rhanbarthol RGC, yn ogystal â rhaglen digwyddiadau gwych y Cyngor” ychwanegodd Mally Tidswell, Rheolwr Canolfan Ddigwyddiadau Eirias.

'GET INTO CONSTRUCTION'

Roedd Muse Developments a Bowmer & Kirkland yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog i ddarparu rhaglen 'Get Into Construction' ym Mehefin ar safle datblygu Coed Pella, lle cafodd y rhai nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant, rhwng 18 a 24 oed gyfle i gael profiad o'r byd gwaith ar safle adeiladu.

Mynychodd ymgeiswyr Ddiwrnod Blasu yng Ngholeg Llandrillo, Llandrillo yn Rhos lle cyflwynwyd amrywiol heriau iddynt ac roeddent yn dysgu beth allai fod o'u blaenau ar y rhaglen tair wythnos.



Ymgeiswyr ifanc yn y Diwrnod Blasu gyda staff Ymddiriedolaeth y Tywysog, B&K a Jennings.

Roedd y sawl oedd yn cymryd rhan wedi cael profiad amhrisiadwy yn ystod y rhaglen tair wythnos, gydag un wythnos yn yr ystafell ddosbarth yn ymgymryd â chysiau iechyd a diogelwch perthnasol ac yna pythefnos yn gweithio ar safle gyda B&K a Jennings. Roedd hyn yn diweddu gyda chyflwyniad ar ddiwedd y tair wythnos. Roedd y tri gŵr ifanc ar y rhaglen, Ciaran, 19 o Fae Colwyn, Jordan, 18 o Gyffordd Llandudno a Kaleb, 20 o Benmaenmawr wedi ennill profiad gwerthfawr ar y safle a chawsant gynnig pedair

wythnos o waith pellach gan B&K a Jennings, gyda thâl y tro hwn, fel y gallent ennill mwy o brofiad.



Kaleb, Jordan a Ciaran.

Gobeithio y bydd rhaglen bellach yn dilyn ar safle Coed Pella yn 2018, lle gall mwy o bobl ifanc ddysgu am y diwydiant adeiladu a'r amgylchedd gwaith. Dyma raglen 'Get into Construction' cyntaf yn y sir a gall brofi'n dempled ar gyfer cynlluniau eraill, boed yn cael ei arwain yn gyhoeddus neu'n breifat yn y dyfodol.

“Rydym yn hapus o fod yn rhan o dîm Muse, B&K, Jennings a'r Cyngor Sir a gyflwynodd y rhaglen gwerth chweil hon. Mae bod y cyntaf yn Sir Conwy yn foment falch i bawb a gyfrannodd at y prosiect, ac mae helpu i roi cyfleoedd i bobl ifanc yn rhywbeth yr ydym wedi gweithio'n galed gyda'n gilydd i'w alluogi. Mae'r prosiect hwn yn un sydd wedi, yn a bydd yn creu newid ar nifer o lefelau” meddai Philippa Davies, Ymddiriedolaeth y Tywysog.

BUDDION CYMUNEDOL

Yn ogystal â buddsoddi yn 'Get Into Construction' Ymddiriedolaeth y Tywysog a'r gwaith celf ar y palis, gwelwyd nifer o fentrau eraill yn ystod y misoedd diwethaf gan Bowmer & Kirkland fel prif gontractwyr er budd y dref a'r gymuned ehangach.

Yn ôl ym mis Mai, rhyddhaodd B&K ddau aelod o staff i wirfoddoli ar gyfer y Digwyddiad 1940au blynyddol a gynhaliwyd yng Nghanol Tref Bae Colwyn. Roedd B&K hefyd yn garedig yn cynnig ymrwymo i Colwyn yn ei Blodau; mae'r fenter yn ceisio gwella'r strydlyn a chyfrannu at gynyddu nifer yr ymwelwyr o fewn canol y dref.

Bu llawer o ymgysylltu â'r ysgolion cynradd lleol y tu hwnt i'r gwaith o amgylch y palis celf. Bu B&K yn cynorthwyo Ysgol Pen y Bryn, ysgol leol gyda'u cais 'big artwork' ar gyfer Gemau Terfynol Cynghrair y Pencampwyr 2017 yng Nghaerdydd. Bu plant Ysgol Sant Joseff yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth lliwio, gyda darnau lliwgar iawn o waith yn cael eu cyflwyno ar gynlluniau lliwio gwahanol i swyddfeydd newydd Coed Pella! Mae ysgolion lleol eraill hefyd wedi cael budd ymrwymiad B&K yn ymchwilio mentrau gwerth chweil, ac rydym yn gobeithio son am y rhain mewn rhifynnau o'r newyddlen hon yn y dyfodol.

SWYDDFA BRESENNOL Y CYNGOR - RHYFEL A HEDDWCH

Mae'r angen i wagu swyddfeydd y Cyngor yn Dinerth Road, Llandrillo yn Rhos yn un o'r prif ysgogwyr y tu ôl i ddatblygiad y swyddfeydd newydd, eiconig yng Nghoed Pella, oherwydd eu hoedran, cynllun a'r brydles yn dod i ben. Ychydig iawn sy'n gwybod hanes y safle sy'n gartref i nifer o wasanaethau'r Cyngor.

Adeiladwyd yn 1942, yn ystod yr Ail Ryfel Byd fel ysbyty brys i'r cleifion y disgwylir pe bai'r Almaenwyr wedi llwyddo i feddiannu'r wlad, ni chafodd yr adeilad erioed ei ddefnyddio ar gyfer ei ddiben, ond ni all unrhyw un fetu sylwi na fwriadwyd yr adeilad fel swyddfa, gyda'r llethrau a adeiladwyd i wneud golchi'r lloriau ychydig yn haws pan yn llawn o gleifion y rhyfel!



Un o'r nifer o flociau ystafelloedd yn Dinerth Road.

Gwnaed rhywfaint o ddefnydd o'r adeilad yn gysylltiedig â'r rhyfel, gyda rhywfaint o'r gofod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio masgiau nwy ac Adain

Deunydd Bwydo Anifeiliaid y Weinyddiaeth Bwyd wedi ei hadleoli yma.

Bron 70 mlynedd yn ddiweddarach, cymerodd y Cyngor y brydles ar gyfer y safle cyfan yn 2011 pan symudodd Llywodraeth Cymru i'w swyddfeydd newydd yn Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno. Roedd cymryd y brydles sawl blwyddyn yn ôl yn sefyllfa lle'r oedd y Cyngor yn gallu meddwl sut y byddai'n moderneiddio ei ystâd a datblygu achos ar gyfer Strategaeth Gofod Swyddfa. Nid oedd byth yn fwriad aros am dymor hir; nid oedd ailddatblygu'r safle fel swyddfeydd yn opsiwn i'r Cyngor.

Ar hyn o bryd, mae bron 400 o staff yn swyddfeydd Dinerth Road, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Addysg yn bennaf, fydd yn symud i swyddfeydd newydd Coed Pella yn 2018/19. Ar ôl gwagu yn 2018/19, bydd swyddfeydd Dinerth Road yn dychwelyd i'r tîrfeddiannwr, Llywodraeth Cymru a fydd yn ystyried defnydd amgen ar gyfer y safle.



Y brif fynedfa i staff ac ymwelwyr.

Cafodd ei adeiladu fel Ysbyty'r Rhyfel Byd cyntaf ac nid oedd byth yn fwriad iddo fod yn swyddfa ar sail tymor hir; byddwn yn darparu amgylchedd gwaith gwell i'n staff yng Nghoed Pella. Rydym wedi chwysu cymaint ag y gallwn o'r adeilad ac mae'n bryd gwneud defnydd mwy addas ohono; rwy'n gwybod fod yr adran dai wedi bod yn ystyried defnydd amgen, a gall tai fforddiadwy ar y safle ddarparu llety gwir ei angen o fewn ein cymuned, a fyddai'n fudd anuniongyrchol o'r Awdurdod yn symud allan ac i Goed Pella" meddai Bleddyn Evans, Rheolwr Prosiect y Cyngor ar gyfer y Strategaeth Gofod Swyddfa.